

## PRIFFYRDD, CYMRU

2015 RHIF 3

### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

#### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR O FLAEN BRIDGEND ROAD A STRYD Y DDERWEN, ABERCYNFFIG, PEN-Y-BONT AR OGWR) 2015

*Gwnaed* 22 Ionawr 2015

*Yn dod i rym* 29 Ionawr 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir o flaen Bridgend Road a Stryd y Dderwen, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" (*"the Council"*) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

ystyr "y datblygwr" (*"the developer"*) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" (*"the 1990 Act"*) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" (*"the deposited plan"*) yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir o flaen Bridgend Road a Stryd y Dderwen, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr) 2015" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

#### Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i gael ei

wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 7 Hydref 2014 o dan y cyfeirnod P/13/861/FUL ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

### **Priffordd y Gwneir Gwelliannau Iddi**

3. Rhaid gwneud, er boddhad rhesymol y Cyngor, y gwelliannau i'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewwyd, a bydd y briffordd hon, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), yn briffordd i'w chynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar ei chyfer.

### **Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd ac er mwyn Gwneud Gwelliannau i Briffordd**

4. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r rhan o'r briffordd i'w chau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y gwelliannau i'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

### **Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr**

5. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhan o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

6. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 3 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Ionawr 2015

## **RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1980 p. 66

### **YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

#### **ATODLEN 1**

##### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan betryal ei siâp o briffordd at bob diben sy'n gyfanswm o 266.33 metr sgwâr i'r de o Stryd y Dderwen a Bridgend Road, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr ac yn gyfagos iddynt.

#### **ATODLEN 2**

##### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o lain ymyl y briffordd a'r droetfordd sy'n gyfanswm o 108.82 metr sgwâr sy'n gyfagos i Stryd y Dderwen a Bridgend Road, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr.

#### **ATODLEN 3**

##### **Y Datblygiad**

Dymchwel Eglwys y Bedyddwyr Carey a chodi 14 o randai gan gynnwys mynediad i gerbydau a cherddwyr, parcio a thirlunio ar gornel Stryd y Dderwen a Bridgend Road, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TIR O FLAEN BRIDGEND ROAD A STRYD Y DDERWEN, ABERCYNFFIG, PEN-Y-BONT AR OGWR) 2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, ac i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd hynny'n galluogi'r datblygiad yn Atodlen 3 i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir o flaen Bridgend Road a Stryd y Dderwen, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr) 2015 ("y Gorchymyn"), yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1169684/1.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pweiau'r Ddeddf; neu
  - b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;
- o fewn 6 wythnos i 29 Ionawr 2015, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth/Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymynion Cau/2015).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**

Trafnidiaeth

Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

## **ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i' w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan betryal ei siâp o briffordd at bob diben sy'n gyfanswm o 266.33 metr sgwâr i'r de o Stryd y Dderwen a Bridgend Road, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr ac yn gyfagos iddynt.

## **ATODLEN 2**

### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o lain ymyl y briffordd a'r droetffordd sy'n gyfanswm o 108.82 metr sgwâr sy'n gyfagos i Stryd y Dderwen a Bridgend Road, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr.

## **ATODLEN 3**

### **Y Datblygiad**

Dymchwel Eglwys y Bedyddwyr Carey a chodi 14 o randai gan gynnwys mynediad i gerbydau a cherddwyr, parcio a thirlunio ar gornel Stryd y Dderwen a Bridgend Road, Abercynffig, Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 7 Hydref 2014 o dan gyfeirnod P/13/861/FUL.